

*Patrwm cyflwyno O fis Chwefror i fid Medi**O fis Hydref i fis Mehefin**Disgrifiad o'r modiwl*

Bydd y modiwl hwn yn cynnig cyfle i gael blas ar rai o feysydd allweddol cyfrifiadura a thechnoleg gwybodaeth. Caiff myfyrwyr eu cyflwyno i dri phwnc fel rhagflas ar gyfer eu hastudiaethau a gyrfau yn y dyfodol: rhwydweithio, Linux a roboteg. Bydd astudio'r pynciau hyn yn eu galluogi i ddatblygu sgiliau hanfodol os ydynt yn ystyried swydd yn y diwydiant cyfrifiadura a TG yn y dyfodol. Byddant yn cymhwyso'r hyn maent yn ei ddysgu er mwyn datblygu portffolio i ddangos eu sgiliau a'u dealltwriaeth yn y meysydd hyn i ddarparu gyflogwyr. Drwy astudio'r modiwl Lefel 1 rhagarweiniol allweddol hwn, gall myfyrwyr hefyd ddechrau ymchwilio i'w huchelgeisiau gyrfau yn y dyfodol.

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y cwrs hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech:

- fod yn ddefnyddiwr cyfrifiadur profiadol â chefnidir yn eu defnydd at ddibenion gwaith, addysg neu gymdeithasol
- bod yn frwdfrydig ac yn wybodus am dechnolegau cyfrifiadurol a chyfathrebu cyfredol
- meddu ar y gallu i addysgu cysyniadau ategol ac egwyddorion technegol cyfrifiadura a thechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu (TGChau)
- meddu ar ddiddordeb mewn datblygiadau sy'n gysylltiedig â TGChau, a gwybodaeth amdanynt, yn enwedig mewn perthynas â rhwydweithio, Linux a roboteg
- meddu ar ddealltwriaeth o ddyluniad a strwythur rhaglenni cyfrifiadur lefel rhagarweiniol, ac yn gallu helpu myfyrwyr i ddysgu elfennau hanfodol y rhain
- meddu ar ddealltwriaeth o gysyniadau caledwedd a meddalwedd cyfrifiadur sylfaenol
- bod yn frwdfrydig ynghylch datblygu sgiliau myfyrwyr ym maes cyfathrebu, rhifedd, llythrennedd gwybodaeth a defnyddio'r iaith Saesneg, a bod yn barod i gymryd rhan yn y gwaith hwn
- bod yn frwdfrydig ynghylch fforwm grŵp tiwtor ar-lein ac yn gallu ei gymedroli, gan gynnwys hwyluso tiwtorialau a thrwy Elluminate ac yn y fforwm
- gallu dysgu a defnyddio technolegau newydd a thechnolegau sy'n esblygu i gefnogi dysgu myfyrwyr, gan gynnwys marcio aseiniadau ag elfennau amlgyfrwng a rhaglennu yn ogystal â deunyddiau ysgrifenedig
- bod yn barod i weithio fel rhan o gymuned ar-lein o athrawon a dysgwyr
- bod yn frwdfrydig ynghylch defnyddio portffolios myfyrwyr ar gyfer cyflogadwyedd ac asesu.

*Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl 30 cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:

Nifer yr aseiniadau a gyflwynwyd gan y myfyriwr:	3 + 1 aseiniad diwedd modiwl
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Oriau yr amcangyfrifir fesul wythnos addysgu:	3.5

*Mae gan y modiwl hwn aseiniad diwedd modiwl ac nid yw'r tâl ar gyfer marcio'r rhain wedi'i gynnwys yn eich cyflog Darlithydd Cyswllt ar gyfer y modiwl hwn*